

Erthygl

Cystadleuaeth anodd i'w beirniadu fu hon. Mae llawer yn dibynnu ar chwaeth a diddordebau'r beirniad, natur – a chywirdeb! - yr ysgrifennu, a phethau ymarferol fel hyd y cyfraniadau. Bu'n gystadleuaeth boblogaidd gyda 13 yn cystadlu.

Ellis: Y mae hon yn erthygl sydd wedi ymddangos eisoes ym mhapur bro Llanw Llŷn, a does dim i ddweud fod hynny'n groes i'r rheolau! Derbyniais y darn fel yr ymddangos yn y papur wedi'i ffotogopio. Dathlu 400 can mlwyddiant ysgol Botwnnog y mae Ellis, gan roi rhyw orolwg digon bras i ni o'r hanes.

Llŷr: Pregeth o fath a gawn gan Llŷr wrth iddo weld y Gymru y mae o'n gyfarwydd â hi, y Gymru y magwyd o ynddi yn prysur ddiflannu. Mae'r iaith a'r diwylliant yn gwanio, ac mae'n erfyn ar bob Cymro a Chymraes i wneud popeth i adfer y sefyllfa. Y mae'n anodd anghytuno ag unrhyw beth mae'n ei ddweud, ond o bulpud y mae rhywun yn disgwyl clywed pregeth, creadur gwahanol yw erthygl mewn papur bro.

Rhion: Pregeth arall, mewn gwirionedd, a'r testun y tro hwn ydi pa mor anodd yw hi ar amaethwyr heddiw. Rwy'n gwybod fod y cyfan a ddywedir yn wir, ond mewn erthygl fel hon dylid meddwl am ffyrdd ychydig yn wahanol a thrawidol o fynegi'r peth. Weithiau nid yw rhestru pryderon a rhwystredigaethau yn ddigon.

Myfanwy: Trafod llwyddiannau merched yn ein cyfnod a'n cymdeithas a wna awdur yr erthygl hon. Eto, mae'n gwbl ddiffuant, ac fe allwn ni i gyd gyd-lawenhau â hi yn yr hyn y mae hi yn ei ddathlu. Y mae angen ychydig mwy o ofal o ran iaith; er enghraifft, deall y gwahaniaeth rhwng 'ei' ac 'eu'. Cofiwch fod amser golygyddion papurau bro (yn ogystal â beirniaid eisteddfodol) yn gallu bod yn brin hefyd!

Betsan: Erthygl hoffus a hiraethus am y dyddiau a fu yn Llanddewi Brefi yw hon. Y mae wedi'i hysgrifennu'n dda, ac mae Betsan wir yn llwyddo i greu darlun hyfryd o sut oedd bywyd yn arfer bod yng nghefn gwlad Cymru, ac yn Llanddewi Brefi yn benodol. Er fod tristwch o weld y newid sydd wedi digwydd bu'n ddigon doeth i ganolbwytio ar ddisgrifio'r gorffennol.

Dal i Fynd: Pytiau a gafwyd y tro hwn. Cawn hanes gwneud marmalêd, trip i Wlad yr Iâ ac apêl ar i bobl beidio gadael eu sbwriel yng nghefn gwlad. Dyma'r union math o ysgrifennu hamddenol y mae rhywun yn disgwyl ei weld mewn papur bro. Y mae'r cyfan, hefyd, wedi'i ysgrifennu mewn iath naturiol a chywir.

Siôn: Erthygl am broblemau i gefn gwlad, ac amaethyddiaeth yn arbennig, sy'n deillio o'r holl ansicrwydd yn dilyn Brexit. Mae'n amlwg fod yr awdur yn lleisio ofnau nifer ar hyn o bryd.

Twtmot: Yr hyn a gawn ni yma yw 'Adolygiad FotoAber gan gystadleuydd'. Cawn ddisgrifiad digon difyr o ddigwyddiadau'r dydd – diwrnod arbennig o wlyb, mae'n debyg. Dyma dalu sylw teilwng i weithgaredd lleol, elfen holl-bwysig o waith papur bro.

Meinigwynion: Erthygl ddifyr sy'n trafod hanes sied sydd yng ngardd Gerddigleision, Bont-goch. Cawn ddigon o'r hanes, a dyma enghraifft o erthygl o ddidordeb lleol, gwerth chweil. Y mae'r iaith yn gywir a glân hefyd.

Glan Ystwyth: Yma fe gawn ni nifer fawr o ffeithiau difyr iawn am hanes Aberystwyth. Yn anffodus, braidd yn gatalogaidd yw'r cyfan, ac nid yw'r ysgrifennu'n dal sylw'r darlennydd.

Oni Bai... : Byd stampiau ac eirth a gaiff y sylw yn fan hyn, gyda'r awdur yn gweld posibiliadau I Gymru yn economaidd yn y maes.

Melys Moes Mwy: Erthygl wyddonol annisgwyl iawn – i mi – ydi hon. Mae'n trafod materion dyrys y clefyd melys neu glefyd y siwgwr, ac yn arbennig 'peiriannau monitoreiddio glwcos sy'n y gwaed'. Diolch yn fawr iawn amdani, yr unig gwestiwn sydd gen i yw, ai mewn papur bro y mae ei lle hi? Rhag i neb gam-ddeall, nid dadlau yn erbyn cynnwys erthyglau gwyddonol ydw i, ond mae hon yn eithaf arbenigol ac yn dibynnu ar lawer iawn o luniau.

Nid Gelert: Cyfres ddigon difyr o straeon a ffeithiau yn ymwneud â chŵn a geir yma. Rhywbeth digon derbyniol os oes bwllch i'w lenwi yn y papur!

Dwi wedi penderfynu rhannu'r wobr yn gyfartal y tro hwn, a hynny rhwng **Betsan a Dal i Fynd**.

Dafydd J Pritchard